

DAVIES, DAVID EMRYS (1904-1975), cricedwr a dyfarnwr criced

Enw: David Emrys Davies
Dyddiad geni: 1904
Dyddiad marw: 1975
Priod: Annie Gertrude Davies (née Moody)
Plentyn: Peter Davies
Rhiant: Mary Davies (née Protheroe)
Rhiant: Thomas Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cricedwr a dyfarnwr criced
Maes gweithgaredd: Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
Awdur: D. Huw Owen

Ganwyd Emrys Davies yn Sandy, Llanelli ar 27 Mehefin, 1904, yn fab i Thomas Davies, gweithiwr tin, a'i wraig Mary. Addysgwyd ef yn Ysgol Anglicanaidd Pentip, Sandy, Llanelli. Priododd Gertrude Moody yn 1927. Ganed iddynt un mab, Peter, a chwaraeodd ef rygbi i Brifysgol Caergrawnt a bu'n gapten ar ail dîm Morgannwg yn y 1950au.

Emrys Davies oedd un o'r ddau Gymro cyntaf, ynghyd â [Dai Davies](#), a fu'n amlwg fel cricedwyr proffesiynol yn nhîm Morgannwg ym Mhencampwriaeth y Siroedd.

Wedi gadael ysgol, gweithiodd yng ngwaith dur Llanelli. Chwaraeodd griced i dîm y gwaith ac yna i Glwb Criced Morgannwg yn 1924 fel troellfowliwr llaw-chwith. Er gwaethaf dechreuad cymharol ddi-nod i'w yrfa fel cricedwr gyda Morgannwg, dyfarnwyd cap sirol iddo yn 1928 a datblygodd yn aelod cyson o'r tîm yn y 1930au. Yn fatiwr llaw-chwith sgoriodd dros 1,000 o rediadau yn 1932 a chyrraeddodd y targed hwn yn gyson tan 1953. Yn 1939 tarodd ei sgôr uchaf o 287 heb fod allan yn erbyn swydd Gaerloyw, a pharhaodd y sgôr hwn yn sgôr unigol uchaf y clwb tan y flwyddyn 2000. Ffurfiodd bartneriaeth agor llwyddiannus gydag Arnold Dyson o 1932 tan 1947, a sefydlwyd ganddynt record sirol newydd o 274 yn eu partneriaeth agor yn erbyn swydd Gaerl r yn 1937. Sicrhaodd ef record newydd arall yn 1948 pan ychwanegodd Willie Jones ac yntau 313 o rediadau am y drydedd wiced yn Brentwood yn erbyn Essex.

Yn 1935 Emrys Davies oedd y chwaraewr cyntaf o dîm Morgannwg i sicrhau'r dwbl drwy sgorio 1,000 o rediadau a chymryd 100 o wicedi yn yr un tymor; cyflawnodd yr un orchest yn 1937 pan sgoriodd 1,954 o rediadau a chymryd 101 o wicedi. Fe'i dewiswyd ar gyfer taith yr MCC i India yn 1939-40 ond diddymwyd y daith oherwydd dechreuad yr Ail Ryfel Byd. Parhaodd i chwarae wedi'r rhyfel tan iddo gyrraedd ei benblwydd yn 50 oed. Chwaraeodd 612 o gêmiau i Forgannwg dros gyfnod o 30 blynedd er 1924, gyda chyfanswm o 26,566 o rediadau, sgorio 1,000 o rediadau ar 16 achlysur, a chymryd 903 o wicedi.

Yn dilyn ei ymddoliad yn 1954 ymunodd â rhestr y dyfarnwyr a gweithredodd mewn naw gêm brawf rhwng 1956 a 1959. Ef oedd y dyfarnwr yng Ngêm y Llundw, ar faes Old Trafford, pan gipiodd Jim Laker 19 wiced am 90 rhediad i Loegr yn erbyn Awstralia. Ymddolodd oherwydd afiechyd yn 1960 a bu'n hyfforddwr yng Ngholeg Llanymddyfri yn ystod y cyfnod 1961-70.

Bu farw Emrys Davies yn Llanelli ar 10 Tachwedd, 1975.

Awdur

D. Huw Owen

Ffynonellau

Benny Green, *The Wisden Book of Obituaries, Obituaries from Wisden Cricketers' Almanack 1892-1985* (1986)

Andrew Hignell, *A Who's Who of Glamorgan County Cricket Club 1888-1991* (1992)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5374799](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2015-03-18

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

